HAPUSRWYDD • HYDER • LLWYDDIANT
HAPPINESS • CONFIDENCE • SUCCESS

Ysgol Cynddelw Glyn Ceiriog — Ysgol Llanarmon DC




18/1/22

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Gweithgareddau ar y gweill:

**Penblwydd yr Urdd 25/1/22**

Ar Ddydd Mawrth Ionawr 25ain mi fydd ysgolion Cymru yn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed! Gofynnwn i bob disgybl ddod i'r ysgol yn gwisgo rhywbeth coch, gwyrdd neu wyn neu'r tri lliw i ddathlu. Byddwn yn ymuno â pharti rhithiol trwy zoom am 10.30yb ac fel rhan o'r dathliadau rydym wedi cofrestru i gymryd rhan mewn tasg i dorri Record y Byd newydd trwy ganu 'Hei Mr Urdd'. Gallwch wneud hyn adref hefyd, gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar wefan yr ysgol.

**Addysg Gorfforol yr Urdd**

Bydd sesiynau yn parhau i ddisgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 ar ddydd Mawrth felly mi fydd dal angen eu gwisg ymarfer corff. Mi fydd y sesiwn olaf ar 1/2/22.

**Dydd Miwsig Cymru 4/2/22**




Diwrnod i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg. Mae'r Criw Cymraeg wedi penderfynu ar nifer o weithgareddau i ddisgyblion eu gwneud yn ystod y dydd gan gynnwys dylunio crysau-t, creu rhestr cerddoriaeth i chwarae yn y dosbarth, dylunio gitar trydan a llawer o bethau eraill. Syniadau gwych, da iawn Criw Cymraeg!

**Mewn Cymeriad- Sioe Ail Ryfel Byd 14/2/22**

Mi fydd cyfnod allweddol dau (Dosbarth Miss Jones) yn cael y cyfle i wylio sioe rithiol yn y bore.

**HANNER TYMOR – 18/2/22** **NÔL I'R YSGOL DYDD LLUN 28/2/22**

**Dydd Gŵyl Dewi 1/3/22**



Byddwn yn dathlu trwy wneud llawer o weithgareddau eto wedi eu trefnu gan y Criw Cymraeg. Gofynnir i ddisgyblion wisgo lliwiau Cymreig i'r ysgol neu ddillad traddodiadol Cymreig. Mi fydd disgyblion yn dysgu am Gymru a thraddodiadau, yn dysgu cân Gymraeg newydd ac yn cymryd rhan yn ein cystadleuaeth gelf.

**Diwrnod y Llyfr – 3/3/22**

Mae croeso i bob disgybl ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr.




CYNDDELW
01691 718426
mailbox@cynddelw-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru

FFEDERASIWN DYFFRYN CEIRIOG
CEIRIOG VALLEY FEDERATION

LLANARMON
01691 600278
mailbox@llanarmondc-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru

# Diweddariad Covid

## Trefniadau os oes achos o Covid mewn dosbarth

Mae'r drefn sydd angen i ysgolion ei dilyn os oes achos / achosion o Covid mewn dosbarth wedi newid o'r hyn yr oedd cyn y Nadolig – mae'r manylion isod:

### Un achos mewn dosbarth

Mi fydd rhieni a gwarchodwyr yn derbyn neges i ddweud fod achos wedi ei gadarnhau yn y dosbarth ac i gadw llygaid am unrhyw symptomau yn eu plentyn. Neges er gwybodaeth yn unig fydd hon.

### Dau neu fwy o achosion mewn dosbarth

Mi fydd rhieni a gwarchodwyr yn derbyn ail neges i ddweud fod dau neu fwy o achosion yn y dosbarth ac yn cynghori'n gryf i'w plentyn wneud prawf LFT bob bore am saith diwrnod cyn dod i'r ysgol. Os yw'r prawf yn bositif ar unrhyw un o'r dyddiau, rhaid ynysu a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Ni fydd hyn yn berthnasol i ddisgyblion sydd o dan 5 oed.

Os oes unrhyw symptomau ar eich plentyn, gan gynnwys symptomau arwahan i'r tri prif un,peidiwch a gyrru eich plentyn i'r ysgol a threfnwch brawf PCR ar ei gyfer. Ar gyfer disgyblion o dan 5 oed, dylent aros adref nes fod y symptomau wedi clirio. Os oes disgybl yn profi'n bositif, a fod **ganddo / ganddi frawd neu chwaer yn yr ysgol, dylai'r brawd neu chwaer gymryd prawf LFT bob bore am 7 niwrnod** – cyn belled ei fod yn negatif, gall barhau i fynychu'r ysgol fel arfer.

Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os rhywun yn profi'n bositif a'r rheolau hunan ynysu ar gael drwy'r ddolen isod:

https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu

Plis peidiwch ag oedi i gysylltu efo'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Hoffwn ddiolch unwaith eto i chi am eich cydweithrediad a chefnogaeth gyson.

Yr Eiddoch yn gywir,

Mrs Sockett

CYNDDELW
01691 718426
mailbox@cynddelw-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru

FFEDERASIWN DYFFRYN CEIRIOG
CEIRIOG VALLEY FEDERATION

LLANARMON
01691 600278
mailbox@llanarmondc-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru

Ysgol Cynddelw Glyn Ceiriog
HAPUSRWYDD • HYDER • LLWYDDIANT
HAPPINESS • CONFIDENCE • SUCCESS
Ysgol Llanarmon DC

18/1/22




Dear parents and carers,

## Upcoming events:

<u>Urdd birthday party – 25/1/22</u>
On **Tuesday 25th January** schools in Wales will be celebrating the Urdds' 100th Birthday! We ask that all pupils please come to school wearing something red, green or white or all three Urdd colours to celebrate. We will be joining a virtual party via zoom at 10.30am and as part of the celebrations, we will be taking part in a task to break a Guinness World Record singing 'Hei Mr Urdd'. You can also do this at home by following the instructions on the school website.

<u>Urdd PE</u>
Sessions will continue for pupils in Reception to Year 6 on a Tuesday therefore they will still need to come to school in their PE kit. Their last session is on 1/2/22.

<u>Dydd Miwsig Cymru 4/2/22</u>
A day to celebrate Welsh music. The Criw Cymraeg have decided on many activities for pupils to do during the day including designing t-shirts, creating playlists, designing electric guitars and many other things. They have come up with some fantastic ideas, da iawn Criw Cymraeg!




<u>Mewn Cymeriad / In Character WW2 show 14/2/22</u>
Key Stage two (Miss Jones' class) will be having a virtual WW2 show in the morning.

**HALF TERM – LAST DAY IN SCHOOL 18/2/22 RETURN TO SCHOOL ON MONDAY 28/2/22**

<u>Saint Davids' Day / Dydd Gŵyl Dewi 1/3/22</u>
We will be celebrating by doing many activities again organised by the Criw Cymraeg. Pupils are asked to wear Welsh colours to school or traditional Welsh clothing. Pupils will be learning about Wales and traditions, every class will be learning a new Welsh song and taking part in our annual art competition.

<u>World Book Day – 3/3/22</u>
All pupils are welcome to come to school dressed as their favourite character from a book.



HAPUSRWYDD • HYDER • LLWYDDIANT
HAPPINESS • CONFIDENCE • SUCCESS

# Covid Update

**Procedures for Covid cases in a class**

The procedures that schools are to follow if there are Covid cases in a class have changed from what they were last term.

**One case in a class:** Parents and carers will receive a message informing of a positive case in the class and to keep an eye out for their child displaying any symptoms and carry out normal procedures for checking if their child displays any of the symptoms. This message will be for information only.

**Two or more cases in a class:** Parents and carers will then receive a second message informing of two or more cases in the class. Parents and carers will be asked to do a LFT (Lateral Flow Test) on their child every morning BEFORE coming to school for seven days. If the test is positive on any of the days, the child should self-isolate in line with the Welsh Government's guidelines. This is not relevant for pupils under the age of 5. If your child is displaying any symptoms, including ones other than the three main symptoms, please don't send him / her to school and arrange a PCR test.
If your child is under 5, he / she should NOT attend school until the symptoms have cleared.
If a pupil tests positive and **that he/ she has a brother or sister in school, the brother / sister should take an LFT every morning for 7 days** – as long as the daily LFT is negative, they can continue to attend school as usual.

There is general information on what to do if someone tests positive and the rules around self-isolation available through the link below:

https://gov.wales/self-isolation

Please do not hesitate to contact the school if you have any questions or require any further information. Thank you once again for your continued support and cooperation.

Yours Sincerely,

Mrs Sockett

FFEDERASIWN DYFFRYN CEIRIOG
CEIRIOG VALLEY FEDERATION

CYNDDELW
01691 718426
mailbox@cynddelw-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru

LLANARMON
01691 600278
mailbox@llanarmondc-pri.wrexham.sch.uk
www.cvf.cymru